

DATHLU'R 'CALAN HEN' YN LLANDYSUL - DR RHYS WILLIAMS



A helpodd ficer o'r 19eg ganrif i ddatblygu rygbi yng Nghymru ar ddamwain? Gyda phencampwriaeth y Chwe Gwlad ar y gorwel, mae Dr Rhys Williams o Dderwen Fawr yn edrych ar draddodiad 'Calan Hen' yng Ngorllewin Cymru ac etifeddiaeth ei hynafiad, y Parchedig Enoch James.

Ar ddydd Sadwrn oer ar 10ed Ionawr, ymwelsom ag eglwys plwyf Sant Tysul, Llandysul, lle codwyd porth y fynwent yn 1933 yn gofeb i'r Parchedig Enoch James (1793–1849), fy hen hen hen Dadcu, a fu'n gwasanaethu fel ficer yno o 1822 hyd at 1849.

Yn 1833, ganrif cyn codi'r porth er cof amdano, roedd y Parchedig James wedi gwahardd y gêm 'Cnapan' ac wedi sefydlu digwyddiad gwahanol yn ei lle, sy'n parhau hyd heddiw.

Ganwyd deuddeg o blant i'r Parchedig James a'i wraig, Louisa Margaret (1803–1844), fy hen hen hen fam-gu ond bu farw tri yn fabanod.

Goroesodd pedair merch a phum mab ond yn anffodus, bu farw Louisa Margaret ei hun wythnos yn unig ar ôl genedigaeth eu mab ieuengaf.

Aeth pob un o'u meibion i Brifysgol Rhydychen, a daeth pob un ond un yn glerigwyr Anglicanaidd.

Gwaetha'r modd, bu farw un yn 19 oed tra oedd yn astudio yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen.

O'r meibion eraill, roedd un yn Archddiacon Tyddewi, un arall yn is-brifathro Coleg y Drindod, Caerfyrddin, a'r lleill yn ficeriaid yn Nhreletert, Sir Benfro, a Llangollen, Sir Ddinbych.

Gêm arw a hynafol oedd Cnapan a fyddai'n cael ei chwarae ar ddydd Calan bob blwyddyn rhwng pentrefi cyfagos yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion. Yr amcan oedd cael pêl galed iawn at gât eglwys pentref y gwrthwynebwyr— yn yr achos hwn, rhwng eglwysi Llanwenog a Llandysul, bum milltir a hanner oddi wrth ei gilydd. Erbyn dechrau'r 19eg ganrif, roedd nifer o chwaraewyr wedi'u lladd neu eu hanafu wrth chwarae'r gêm.

Pan newidiodd y calendr Gregoraidd ddyddiad y Flwyddyn Newydd yn 1752, parhaodd pobl yr ardal i gynnal gêm Cnapan ar yr hen Galan—y 12fed o Ionawr. Nid oedd nifer y marwolaethau ac anafiadau yn cael eu hystyried yn ormodol, ond erbyn 1833, penderfynodd y Parchedig James nad oedd yn briodol i'r gêm gael ei chwarae rhwng y ddwy eglwys. Gwaharddwyd y gêm a sefydlwyd cystadleuaeth ysgrythurol rhwng y plwyfi lleol sy'n parhau hyd heddiw ar y Sadwrn agosaf at Ionawr y 12fed.

Mae rhai'n credu bod gwahardd Cnapan wedi cyfrannu at boblogrwydd rygbi, a oedd yn dechrau dod yn boblogaidd ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt ac mewn ysgolion bonedd.

Mae'n debyg i'r Parchedig James fod yn gatalydd anfwriadol yn natblygiad rygbi yng Nghymru. Er hyn, roedd ganddo gysylltiad da â Phrifysgol Llanbedr Pont Steffan, lle sefydlwyd y clwb rygbi cyntaf yng Nghymru, yn ogystal â Phrifysgol Rhydychen a, thrwy ei dad-yng-nghyfraith (fy hen hen hen hen dad-cu), â Phrifysgol Caergrawnt, ac roedd ei fab, fel y soniais eisoes, yn is-brifathro Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

Felly, er efallai i'r Parchedig James gael rhywfaint o ddylanwad ar ddatblygiad rygbi yng Nghymru, dwi'n amau ei fod yn gwbl anfwriadol... ond mae'n syniad braf.



CYMDEITHAS GYMRAEG LLANDEILO FERWALLT
-MARTIN JONES

Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar 19eg o Ionawr pan "Y Parc Nad Oedd" oedd teitl dirgel sgwrs ddarluniadol ein his-gadeirydd, Brian Davies. Ond roedd cliw yn aros amdanon ni ar bob sedd yn y neuadd ar ffurf taflen Cymdeithas Mynyddoedd Cambria. Ac yn rhan gyntaf ei sgwrs esboniodd Brian fod y mynyddoedd yn dal i fod heb eu dynodi naill ai yn Barc Cenedlaethol neu yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol er gwaethaf eu tirwedd, amgylchedd, ac etifeddiaeth unigryw - ac er gwaethaf naw deg o flynyddoedd o alw am y fath ddynodiad.

Wedyn aeth Brian â ni ar daith trwy dirweddau amrywiol y "parc nad oedd" o Lanymddyfri i Fachynlleth. Ar y ffordd, clywon ni am Twm Siôn Cati; ymweld â'r blwch ffôn mwyaf anghysbell yng Nghymru a hen gapeli diarffordd; pasio trwy nifer o bentrefi bach; mynd heibio i gronfeydd Cwm Elan a Nant y Moch; a dringo Pumlumon, mynydd uchaf Cambria.

Gwelon ni hefyd olion hanes diwydiannol rhai o'r ardaloedd y "parc nad oedd" gan ymweld â safleoedd mwyngloddiau plwm ac arian. A chan fod yr ardal heb ei dynodi, daeth Brian â'i sgwrs i ben gan annog pawb yn y cynulleidfia i ymweld â'r mynyddoedd cyn iddyn gael eu hamharu. Diolch yn fawr i Brian am sgwrs ddiddorol iawn ac am eich lluniau gwych. Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich dirgelwch nesaf!

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 16eg o Chwefror pan fydd Wyn Jenkins yn siarad am "Hanes y Teulu yn America." Ac ar 16eg o Fawrth bydd Gwyn Roberts yn siarad am "Tryweryn."

Cynhelir bob cyfarfod yn Neuadd Murton am 19.00. Croeso cynnes i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg fel ei gilydd. Dewch yn llw i wrando ar sgwrs ddiddorol, cymdeithasu dros baned, ac efallai ennill gwobr yn y raffl!

Y CYMRO

Tanysgrifiwch i'r Cymro

Tanysgrifiwch i dderbyn papur Y Cymro drwy'r post bob mis am £39 y flwyddyn neu fel PDF drwy e-bost bob mis am £15 y flwyddyn.

A OES HEDDWCH?

Ar ôl y friso fawr a'r protestio - oes goballt bydd cyniwl newydd eni lywodraeth ar gyfer ffermyr Cymru yn tawelu'r dyfodol?

Steddfod yn y ddinas!

Berllwm Y Briffwr yn Wrecsam

Dros lais annibynnol cryf i Gymru... Y CYMRO

Tanysgrifiwch am flwyddyn i bapur cenedlaethol ein gwlad

Cysylltwch gyda
tanysgrifio@ycymro.cymru
i drefnu

HWYL GŴYL DEWI

Cyngerdd, gwobrau, a mwy
yng nghwmni

CÔR TŶ TAWE

Nos Lun 02 o Fawrth

Tŷ Tawe, SA1 4EW

19:00

£5



Celebrate St David's Day with Côr Tŷ Tawe.

LLWYDDIANT SIARAD CYHOEDDUS - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Llongyfarchiadau mawr i dîm Siarad Cyhoeddus Cymraeg Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe am ennill rownd derfynol Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari yn yr Egin. Enillodd Hari'r wobwr am y Cadeirydd gorau, Rhys yn drydydd am y Cynigydd gorau a Maiwenn yn ail am y Gwrthwynebydd gorau. Dyfarnwyd Hari fel siaradwr gorau'r gystadleuaeth a'r tîm cyfan yn fuddugol.



GWAHODDIAD I'R SENEDD - MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG

Cafodd Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe wahoddiad i gyfrannu at ddiwrnod 'Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr' o dan ofal Gyrfa Cymru yn y Senedd. Estynnwyd y gwahoddiad am ein bod wedi cwblhau prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg yn y diwydiant twristiaeth yn ardal Abertawe nôl yn Haf 2025. Ar y pryd, cafodd disgyblion blwyddyn 8 gyfle i holi Kathryn Bulson, un o reolwyr Plantasia sy'n rhugl yn y Gymraeg ac yna i weithio mewn grwpiau i greu fideos o dan y teitl 'Hwyl Abertawe'. Dewiswyd fideo Etta, Willow a Sienna fel yr un gorau a chawsant y cyfle i gynrychioli'r ysgol yn y Senedd. Diwrnod i'w gofio!



Rhowch wyliau i blant a phobl ifanc difreintiedig Cymru



Helpwch ni i roi haf bythgofiadwy yn un o wersylloedd haf yr Urdd!

Bydd cyfraniadau i Gronfa Cyfle i Bawb yr Urdd yn rhoi profiad llawn o weithgareddau, trafndiaeth, llety a bwyd i blant a phobl ifanc na fyddai'n cael y cyfle fel arall.

Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth – boed yn fawr neu'n fach, rydych yn helpu i newid bywydau pobl ifanc yng Nghymru.



"Roedd e mor hyfryd clywed nhw'n siarad am eu profiadau ar y ffordd adref ac roedd yn amlwg wedi rhoi hwb mawr i'w hunan hyder. Am y tro cyntaf, byddan nhw'n gallu dychwelyd i'r ysgol a rhannu profiadau positif o wyliau haf."

- GWARCHODWR

Sut i wneud cyfraniad:

- Gwefan yr Urdd: urdd.cymru/cronfa
- Anfon siec at Wersyll yr Urdd Llangrannog yn daliadwy i Urdd Gobaith Cymru
- Tudalen JustGiving: www.justgiving.com/campaign/cronfacyfleibawb



Cyfrannwch heddiw

£230

= gweithgareddau, trafndiaeth, llety a bwyd i un plentyn yn un o wersylloedd haf yr Urdd.



Cronfa Cyfle i Bawb

LEDI'R WYRCWS UN DIWYLLIANT, DAU FYD -SIONED HUWS

Mae'n 1955, oes yr NHS newydd, ond mae'r wyrwys yn sefyll o hyd, a rhai o'i drigolion yn garcharorion tlodi ers hanner canrif a mwy.

Daw dwy fenyw o gefndiroedd hollol wahanol wyneb yn wyneb, y naill yn cludo traddodiad a'r llall yn gobeithio diogelu'r traddodiad hwnnw. Ond wrth ganu, recordio a thrafod caneuon gwerin, daw hanes cudd i'r golwg.

Drama gan Jerry Hunter, wedi'i hysbrydoli gan hanesyn a glywodd am Y Foneddiges Amy Parry-Williams yn recordio caneuon gwerin yn Wyrwys Dinbych.

Cast: Morfudd Huws, Owen Arwyn a Judith Humphreys

Ychydig am hanes y ddrama: Bu Jerry Hunter yn annerch cymdeithas Gymraeg mewn tref yng Ngogledd Cymru rai blynnyddoedd yn ôl. Ar ddiwedd y cyfarfod, dyma un aelod o'r gynulleidfa yn cerdded allan o'r adeilad gydag ef, yn trafod cynnwys y ddarlith.

Cyrhaeddodd y ddau y palmant a sefyll yno am sbel, yn siarad am wahanol bethau. Wedyn, dyma'r dyn yn codi llaw a chyfeirio at adeilad mawr gyferbyn â nhw.

'Welwch chi'r adeilad hwnnw?' meddai wrth Jerry, 'dyna'r hen wyrwys', gan ychwanegu, 'recordiodd Ledi Amy Parry-Williams rai o'i chaneuon gwerin gorau gan wreigan a oedd yn byw yn y wyrwys' na yn y 1950au.' Roedd Jerry yn gwybod bod y Foneddiges Amy Parry-Williams – gwraig yr ysgolhaig a'r bardd, T. H. Parry-Williams – wedi gwneud gwaith arloesol yn recordio caneuon gwerin Cymraeg a oedd ar fin darfod o'r tir, ond roedd yn synnu i glywed bod 'wyrwys' yn sefyll o hyd yn y 1950au; onid sefydliad a gysylltir ag Oes Fictoria a nofelau megis Profedigaethau Enoc Huws ac Oliver Twist oedd y wyrwys? Felly cydiodd cyfuniad o bethau am yr hanesyn yn ei ddychymyg – y newyddion bod 'wyrwys' yn sefyll o hyd mewn tref yng Nghymru mor ddiweddar â'r 1950au a'r ffaith bod y sesiwn recordio yna wedi dod â dwy Gymraeg o gefndiroedd gwahanol iawn ynghyd am rai oriau.

Dechreuodd feddwl am rai cwestiynau diddorol ynglŷn â diogelu diwylliant, dosbarth cymdeithasol, a thlodi. Er iddo gyhoeddi nifer o nofelau, roedd yn gwybod yn syth mai drama lwyfan fyddai'r cyfrwng gorau ar gyfer y stori hon. Ond, yn hytrach na cheisio cynrychioli Amy Parry-Williams a'r fenyw a recordiwyd ganddi penderfynodd mai creu

cymeriadau ffuglennol wedi'u hysbrydioli gan yr hanesyn fyddai'r ffordd orau ymlaen. A dyna'r proses a arweiniodd at ysgrifennu sgript Ledi'r Wyrwys.



Perfformiwyd Ledi'r Wyrwys ddwywaith yn Galeri, Caernarfon, ac unwaith yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli, ym mis Ionawr 2025. Mewn ysgrif adolygiad a gyhoeddwyd yn O'r Pedwar Gwynt, mae Angharad Dafis yn dweud hyn:

'Drama fendithiol ar gymaint o wahanol weddau yw Ledi'r Wyrwys. Drama o bosib i'w phrofi sawl gwaith drosodd, a'r plygiadau ynddi yn amlygu eu hystyron o'r newydd. Drama i'n procio a'n pryfocio ac i herio rhagdybiaethau salw ein cyfnod enbyd ni. Drama hanesyddol a hynod gyfoes yr un pryd. A drama wreiddiol Gymraeg. Mae cymaint yn y ddrama hon fel ei bod yn anodd gwybod lle mae dechrau ei thrafod.'

Yn sgil llwyddiant y perfformiadau gwreiddiol hyn, mae'n dda cael cyhoeddi bod Ledi'r Wyrwys yn mynd ar daith estynedig led-led Cymru y Gwanwyn hwn ac yn dod i Theatr Soar, Merthyr Tudful nos Fawrth y 24ain o Fawrth 2026, Canolfan Gelfyddydau Pontardawe ar y 25ain o Fawrth, Canolfan Garth Olwg Pontypridd ar y 26ain o Fawrth a Neuadd Llanofor Caerdydd ar yr 28ain o Fawrth. Mae'r tocynnau eisoes ar werth ymhob un o'r canolfannau.

CERDDORION CALENNIG YN DATHLU

-DAFYDD WILLIAMS

"Y nifer fwyaf erioed", dyma yn ôl rhai oedd y dorf o gerddorion gwerin Cymreig a ddylifoedd i'r sesiwn Ddydd Calan yn nhafarn y Cwîns, Abertawe.

Roedd yr offerynnau yn cwmparu popeth o'r iwfoniwm i'r chwiban tun, gyda nifer sylweddol o ffidils a gitars am ambell i delyn. A roedd y cerddorion yn amrywio o ran oed o'r arddegau cynnar i'r wyth-degau.

Cynifer oedd yna nes bod angen cynnal sesiwn orlifel yn y bar cefn. Ac ynghanol y rialtwch pwy ddaeth i mewn ond Mari Llwyd ei hun.

Diolch i'r cerddorion, eu cefnogwyr, staff y Cwîns a phobun a helpodd drefnu sesiwn gofiadawy.



Y GANOLFAN DYSGU CYMRAEG YN CEFNOGI FIONA O'R TRAITORS

AR EI THAITH IAITH

-MANON LLWYD BOWEN

Bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cefnogi Fiona Hughes, un o sêr cyfres ddiweddaraf The Traitors, i ailgydio yn ei Chymraeg, ar ôl iddi ddatgan bod dysgu'r iaith yn flaenoriaeth iddi ar ôl ymddeol.

Fel rhan o'r gefnogaeth, bydd un o diwtoriaid arbenigol Codi Hyder y Ganolfan yn cwrdd â Fiona yn wythnosol, er mwyn ymarfer y Gymraeg a'i helpu i adennill hyder i ddefnyddio'r iaith yn ei bywyd pob dydd.



Yn wreiddiol o Dreforys, Abertawe, aeth Fiona i Ysgol Gynradd Gymraeg Lôn Las, cyn symud ymlaen i ysgol gyfun Saesneg. Nid yw Fiona wedi cael llawer o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ers hynny, ac mae bellach yn awyddus i ailafael yn y Gymraeg.

Mae'r Ganolfan yn cynnig ystod lawn o wasanaethau Dysgu Cymraeg ledled Cymru, gan gynnwys cyrsiau ar bum lefel dysgu a chefnogaeth Codi Hyder wedi'i theilwra i ateb gofynion siaradwyr Cymraeg sydd wedi colli hyder i ddefnyddio'r iaith.

Meddai Fiona Hughes, "Dw i'n caru The Traitors ac roedd ymddangos ar y sioe yn fraith. Ro'n i mor hapus i gynrychioli Abertawe a Chymru, a dw i'n teimlo'n gyffrous iawn nawr am y cyfle i gryfhau fy Nghymraeg, gyda help y Ganolfan."

Meddai Dona Lewis, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, "Gwnaeth Fiona argraff fawr ar gynulleidfaoedd The Traitors, a 'dyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ei chefnogi gyda'i Chymraeg.

"Mae'r Ganolfan yn cynnig hyfforddiant Dysgu Cymraeg i gefnogi pawb, lle bynnag maen nhw ar eu taith iaith, gyda darpariaeth hyblyg a chefnogol, sydd ar gael wyneb-yn-wyneb ac yn rhithiol."

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Chwefror. Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Pŵs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn Chwefror 23ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.



Dysg
Learr



Ariennir yn Rhannol gan
Llywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

MEIC AGOREB

CANEUON MEIC STEVENS

IAN 'TICH' THOMAS, KATE RONCONI, DANNY KILBRIDE
& HUW REES



20.3.26 Tŷ Tawe, Abertawe

19:00 / £8

MENTERABERTAWE.ORG

menter
iaith
abertawe



GŴYL Tawe

05.06.26

THE BUNKHOUSE, SA1 3DJ

£15
ADV

THE JOY FORMIDABLE

BREICHIAU HIR · PAT MORGAN
CRINC

06.06.26

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL Y GLANNAU, SA1 3RD

GWENNO · MELIN MELYN

GWESTAI ARBENNIG / SPECIAL GUESTS: CARWYN ELLIS & RIO 18

AM DDIM
FREE

MELLT · CANDELAS
CERYS HAFANA · MELYS
GRIFF LYNCH · MWSOG
CORON MORON
IFYIWOBI A'R CÔR CYMUNEDOL

THE BUNKHOUSE
WYLL YR OCHS

Amgueddfa
Genedlaethol
y Glanau

National
Waterfront
Museum



AMGUEDDFA
CYMRU

menter
iaith
abertawe



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIER GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Taliesin